

## Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol:

# Camwch i fyny i Disclosure UK



## Pam fod Disclosure UK yn bwysig i chi?

**Heddiw mae cleifion, y cyhoedd, archwilwyr a'r cyfryngau yn disgwyl i'r sector gofal iechyd fod yn agored ynghylch eu cydweithrediadau.**

Mae datblygiadau mewn gofal cleifion yn digwydd pan fydd cwmnïau fferyllol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd. Bob blwyddyn, mae miloedd o nyrsys, meddygon, fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn gweithio gyda chwmnïau fferyllol i wella gofal iechyd a datblygu meddyginiaethau a brechlynnau yfory.

Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud hyn yn eu hamser eu hunain ac mae llawer yn cael eu talu am eu harbenigedd. Mae angen i hon fod yn broses dryloyw fel bod taliadau a wneir yn cael eu cyhoeddi gan y cwmnïau fferyllol ar Disclosure UK.

Mae Disclosure UK yn eich helpu i fod yn dryloyw ynghylch eich rhyngweithio â chwmnïau fferyllol.

## Beth yw Disclosure UK

Mae cwmnïau fferyllol yn defnyddio Disclosure UK - cronfa ddata y gellir ei chwilio ar-lein - i fod yn agored am eu perthnasoedd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r gronfa ddata gyhoeddus yn dangos y gwerthoedd y mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn eu derbyn mewn dwy ffordd:

### Disclosure UK

1

**Cyhoeddir taliadau am Ymchwil a Datblygu fel gwerth sengl**, e.e. treialon clinigol, ac nid oes angen cytundeb gweithwyr gofal iechyd proffesiynol arnynt i gyhoeddi. Mae gan y cydweithrediadau hyn ofynion tryloywder allanol eraill.

2

**Cyhoeddir taliadau am waith nad yw'n Ymchwil a Datblygu yn unigol, yn erbyn y person a enwir.**

Mae gwaith di-ymchwil a datblygu yn cynnwys sawl math o weithgaredd.  
Er enghraifft:

2A

#### Enghreifftiau o waith di-ymchwil a datblygu, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

Meddygon yn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth o driniaeth a chlefydau, e.e. bwrdd cynghori. **Bydd y meddyg yn derbyn taliad am ei amser a'i arbenigedd.**  
Gall hyn hefyd gynnwys teithio a llety.

2B

Cwmnïau sy'n cefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gael y wybodaeth ddiweddaraf trwy dalu cost cofrestru ar gyfer digwyddiadau dysgu a datblygu. **Efallai na fydd y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn derbyn taliad uniongyrchol, yn lle hynny cyhoeddir gwerth y cofrestriad.**

## Mae tryloywder i bawb

**Mae Disclosure UK yn bwysig i gyrff proffesiynol ar draws gofal iechyd sy'n annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddatgan eu diddordebau a chefnogi cronfa ddata Disclosure UK:**

- Academi y Colegau Brenhinol Meddygol
- y Gyfadran Meddygaeth Fferyllol
- y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr
- GIG Lloegr
- GIG Improvement yn Lloegr

Gyda'n gilydd gallwn sicrhau bod y DU yn arwain y byd ar gyfer gofal iechyd tryloyw ac atebol.

### Ymddiriedolaeth

Cynnal ymddiriedaeth cleifion.

### Cydweithio

Dangos sut mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chwmnïau yn gweithio gyda'i gilydd.

### Trawsnewid

I ddangos ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i adeiladu sector gofal iechyd tryloyw a chryf.

### Etheg

Mae'r byd yn gwerthfawrogi ac yn cydnabod ymddygiad moesol. Rhaid inni beidio â chael ein gadael ar ôl.

### Gwrthdaro diddordeb

Mae tryloywder yn egwyddor allweddol wrth reoli gwrthdaro buddiannau yn y GIG.

## Beth allaf i wneud?

Mae'n bryd meddwl yn wahanol am ddatgelu. O dan gyfreithiau preifatrwydd y DU, gall cwmnïau fferyllol ofyn am eich caniatâd i ychwanegu eich gwybodaeth at gronfa ddata Disclosure UK.

**1** Camwch ymlaen - dywedwch ieu i Disclosure UK.\*

**2** Mae sefydliadau gofal iechyd hefyd yn cydweithredu â chwmnïau. Os ydych chi'n gyflogwr, ystyriwch annog unigolion i gamu ymlaen a dweud ieu wrth Disclosure UK.

\*Os gofynnir i chi ac nad ydych yn cytuno, cyhoeddir y gwerthoedd fel gwerth sengl heb enw.



## Gwybodaeth bellach

[info@disclosureuk.org.uk](mailto:info@disclosureuk.org.uk)

[www.disclosureuk.org.uk](http://www.disclosureuk.org.uk)

[www.abpi.org.uk/code](http://www.abpi.org.uk/code)